# SWYDD DISGRIFIAD

| | |
|---|---|
| **TEITL SWYDD:** | Swyddog Safle (Plas Penrhos) |
| **ATEBOL I:** | Cydlynydd Tai Cefnogol |
| **YN GYFRIFOL AM:** | N/A |
| **ADRAN:** | Cefnogi Pobl |
| **CYFLOG (£):** | Grade 6 |

## PRIF BWRPAS Y SWYDD
## DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL

- Cyfrannu ar y dull ‘Un Tîm’ ym mhob rhan o Adra gan ddarparu gwasanaeth a chymorth cyson i gydweithwyr ledled y sefydliad yn ôl y gofyn.
- Cadw at bolisïau a gweithdrefnau Adra a chyfrannu i ddarparu cynlluniau ac amcanion gwasanaeth yn ôl y gofyn.
- Cynnig gwasanaeth o ansawdd uchel sy’n canolbwyntio ar y cwsmer, sy’n darparu gwelliant parhaus ac yn sicrhau gwerth am arian.
- Cynorthwyo'r tîm i sicrhau bod cleientiaid yn byw bywyd mor annibynnol â phosib yn eu cymuned leol drwy:

  - Wella ansawdd bywyd, iechyd a lles.
  - Hybu eu diogelwch personol a chymunedol
  - Hybu eu hannibyniaeth a rheolaeth
  - Hybu eu cynnydd economaidd a rheolaeth ariannol.

## CYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL

- Cwblhau a chadw ffurflenni cyfeiriadau monitro ar gyfer pob tenant a chynnal adolygiadau 6 mis.

- Ar gyfer y deiliaid contract hynny sydd angen uned 'call bell' i alw mewn argyfwng, bydd angen cynnal prawf 6 mis a'i gofnodi ar y traciwr contractau.

- Bod yn gyfrifol am groesawu tenantiaid newydd, rhoi arweiniad ar sut i ddefnyddio cyfarpar yn eu cartref a darparu gwybodaeth am y cyfleusterau yn y cynllun a'u cymdogaeth

- Monitro eu hiechyd a lles cyffredinol yn weledol.

- Trafod gyda theuluoedd ac asiantaethau allanol gan gynnwys staff ysbyty, Meddygon Teulu, Gweithwyr Cymdeithasol ar gyfer y cleientiaid hynny sydd angen y cymorth yma.
- Sicrhau bod pob tenant wedi cael asesiad risg o ran eu diogelwch a lles.
- Sicrhau bod unrhyw bryderon diogelu yn cael eu hadrodd yn unol â pholisi diogelu Adra.
- Cymorth a chyfeirio ar gyfer cyngor a gweithredu ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol, ymholiadau rhent, cwynion, cymorth tenantiaeth.
- Trefnu gweithgareddau cymdeithasol ar y safle i atal trigolion rhag teimlo'n ynysig ac unig.
- Rhoi gwybod am unrhyw faterion yn ymwneud â diffygion ar y safle neu'r adeilad drwy'r ganolfan gyswllt.
- Bod yn falch a monitro cynnal a chadw cyffredinol y safle gan gynnwys cadw'r safle a'r tir yn daclus. Adrodd ar unrhyw faterion i dimau eraill o fewn y cwmni.
- Monitro'r defnydd o'r lolfa gymunedol a'r gegin, yr ystafell sgwteri a gweithredu ar unrhyw gamddefnydd.
- Monitro'r gwaith o lanhau'r safle yn unol â'r cytundeb lefel gwasanaeth a rhoi gwybod am unrhyw bryderon.
- Hybu diogelwch tân ar y safle, sicrhau bod cadw tŷ yn cydymffurfio gyda Pholisi Rheoli Tân ac Asesiadau Risg Tân Adra.

| Meini Prawf | Hanfodol | Dymunol | Dull Asesu |
|---|---|---|---|
| **Profiad Perthnasol** | Profiad blaenorol o ymdrin â phobl sydd angen Gofal a / neu Gefnogaeth<br><br>Y gallu i adnabod, asesu a datrys problemau yn gyflym ac mewn ffordd arloesol | Profiad o weithio mewn sefydliad sy'n gwasanaethu cwsmeriaid<br><br>Profiad o ddarparu gwasanaethau i gwsmeriaid<br><br>Profiad blaenorol o gwnsela a rhoi cefnogaeth | Ffurflen Gais a Chyfweliad |
| **Gwybodaeth yn Ymwneud â'r Swydd** | Gwybodaeth am asesu anghenion personol unigolion mewn ffordd sensitif | Gwybodaeth a phrofiad o faterion Iechyd a Diogelwch yn y maes Gofal a / neu Gefnogaeth<br><br>Profiad o reoli achos<br><br>Gwybodaeth am weithio gyda deddfwriaeth mewn perthynas â | Ffurflen Gais a Chyfweliad |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | materion Gofal a Lles, budd-dal Lles, Hawliadau Cronfa Gymdeithasol a Budd-daliadau ar gyfer Gofalwyr<br>Gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o arfer da o ran Diogelu | |
| **Sgiliau yn Ymwneud â'r Swydd** | Y gallu i gyfathrebu yn effeithiol gyda chwsmeriaid a chyd-weithwyr<br>Sgiliau trefnu, gweinyddol a TG da<br>Ysgogi eich hun i weithio, gallu gweithio o dan bwysau ac yn dangos hyder wrth wneud penderfyniadau | Gallu cyfrannu yn hyderus mewn trafodaethau grŵp<br>Sgiliau rhyngbersonol da | Ffurflen Gais a Chyfweliad |
| **Arall** | Parodrwydd i weithio tu allan i oriau swyddfa arferol pan fydd gofyn<br>Wedi ymrwymo i welliant parhaus.<br>Trwydded yrru lawn y DU. | Gwybodaeth am Safonau a rheoliadau Iechyd, Diogelwch, Ansawdd a'r Amgylchedd<br>Y gallu i ymdrin gydag amrywiaeth ymhlith cwsmeriaid gan gwrdd â'u hanghenion yn effeithiol | Ffurflen Gais a Chyfweliad |
| **Iaith Gymraeg** | Rhugl yn y Gymraeg yn ysgrifenedig ac ar lafar. | | Ffurflen Gais a Chyfweliad |